# ESBONIO


Pa ferfau sy'n dangos i ni bod yr adroddiad wedi'i ysgrifennu yn y gorffennol?

Ydy'r adroddiad yn cynnwys rhesymau pam y digwyddodd y trychineb? Lle gwelwch chi nhw?

## Trychineb Aberfan

### Aberfan

Pentref yn Ne Cymru yw Aberfan, tua 4 milltir o Ferthyr Tydfil. Tyfodd y pentref, fel cymaint o bentrefi yng nghymoedd De Cymru, o ganlyniad i'r diwydiant glo.




Beth yw pwrpas y map?

Ond ddydd Gwener, Hydref 21, 1966, digwyddodd trychineb enbyd yn Aberfan. Llithrodd tomen o sbwriel o'r gweithfeydd glo gan ddinistrio tai a chartrefi. Lladdwyd 116 plentyn a 28 oedolyn.

Yn eich geiriau eich hun dywedwch beth sy'n cael ei esbonio yma?

Dros gyfnod o 50 mlynedd, roedd gwastraff o faes glo Merthyr wedi cael ei daflu ar Fynydd Merthyr, ac er bod pobl wedi ceisio rhybuddio'r awdurdodau gan ddweud nad oedd y domen enfawr yn ddiogel, anwybyddwyd y rhybuddion.

Ar ôl tridiau o law trwm, roedd y domen wedi gwanio a dechreuodd lithro ar ei thaith drychinebus i lawr i'r pentref. Roedd plant Ysgol Pantglas wedi bod yn y gwasanaeth lle buon nhw'n canu 'All Things Bright and Beautiful'; ond toc ar ôl iddynt gyrraedd eu dosbarthiadau llithrodd y mynydd marwol a'u lladd.

Pa air tebyg allwch chi ei ddefnyddio yn lle 'trychinebus'?

Pa gysyllteiriau a welwn yn y paragraff hwn?


GwE
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government